# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL

## PENNOD 2

COFRESTRU ETC. DARPARWYR GWASANAETHAU

*Ymgeisio, amrywio a chanslo cofrestriad*

### 15 Canslo heb gais

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganslo cofrestriad darparwr gwasanaeth ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—

(a) nid yw'r darparwr gwasanaeth bellach yn darparu unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig;

(b) nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bellach fod y darparwr gwasanaeth yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth (gweler adran 9);

(c) nid oes unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â phob man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef (ac mae'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais i amrywio'r cofrestriad a ragnodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11(2) wedi dod i ben);

(d) mae'r darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol sydd wedi ei ddynodi mewn cysylltiad â man y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 15. (See end of Document for details)*

mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth;

(e) mae unrhyw berson arall wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth;

(f) nid yw gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r gofynion a grybwyllir yn adran 7(1)(d) i'r graddau y bônt yn gymwys i'r gwasanaeth hwnnw.

(2) At ddibenion is-adran (1)(d) ac (e), mae'r canlynol yn droseddau perthnasol—

(a) trosedd o dan y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir odani;

(b) trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) neu reoliadau a wneir odani;

(c) unrhyw drosedd sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn ei gwneud yn briodol i'r cofrestriad gael ei ganslo (gan gynnwys tramgwydd a gyflawnwyd y tu allan i Gymru a Lloegr a fyddai'n drosedd pe bai wedi ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr).

(3) Ni chaniateir i gofrestriad gael ei ganslo o dan yr adran hon oni bai bod gofynion adrannau 16 a 17 wedi eu bodloni (ond nid yw hyn yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i ganslo cofrestriad ar frys o dan adran 23).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 15 mewn grym ar 2.4.2018 gan O.S. 2017/1326, **ergl. 2(3)(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 15.